



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Gorffennaf 2017 am 6.00yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 July 2017 at 6.00pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present**—**Y Cyngorwyr/Councillors** Richard Jones (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Clive Davies, Elaine Evans, Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill (*gadawodd/left at 7.00pm*), Trystan Phillips.

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. Richard Jones, bawb i'r cyfarfod. Estynnodd gydymdeimlad y cyngor i'r Cyng. Shan Williams yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr Idris James; cytunwyd i'r cyngor anfon carden o gydymdeimlad ymlaen at y Cyng. Williams.**

**Llongyfarchwyd swyddogion a threfnyddion Gŵyl Fawr Aberteifi ar lwyddiant y digwyddiad yn ei chartref newydd yn Theatr Mwldan; roedd y cyngherddau a'r cystadlu brwd o'r un safon uchel eleni eto. Dymunwyd adferiad llwyr a buan i Mr Melfydd George, cyn-Faer Tref Aberteifi, yn dilyn ei driniaeth yn yr ysbyty.**

The Mayor, Cllr Richard Jones, welcomed all to the meeting. He offered his condolences to Cllr Shan Williams on the recent passing of her father, Mr Idris James; it was agreed to forward a card of sympathy to Cllr Williams. The organisers of Gŵyl Fawr Aberteifi were congratulated on the success of the festival at its new venue, Theatr Mwldan; the usual high standard of Welsh culture was maintained and the response has been positive. A speedy return to health was extended to Mr Melfydd George, past Mayor of Cardigan, following his recent medical treatment.

## 2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllr Shan Williams (*profedigaeth/bereavement*)

## 3. Cyfethol Mr Steffan Morgan fel aelod o ward Mwldan.

The Co-option of Mr Steffan Morgan as a member of Mwldan ward.

**Datganiad Derbyn Swydd / Ymrwymo i gydymffurfio â'r Côd.**

**(Ni all cyngorwyr weithredu hyd nes y byddant wedi arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd ac wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Côt Ymddygiad. Mae'r Datganiad hwn yn ymgorffori'r ymrwymiad i gydymffurfio â'r Côt Ymddygiad ac mae'n rhaid i gyngorwyr wneud hyn o dan Ddeddf 2000.)**

Declaration of Acceptance of Office / Undertaking to comply with the Code.

(Councillors may not act until they have signed a Declaration of Acceptance of Office and given an undertaking to comply with the Code of Conduct. This Declaration incorporates the undertaking to comply with the Code of Conduct which councillors are required to give under the 2000 Act.)

**Estynnodd y clerc ei groeso i Mr Morgan. Cyflwynodd iddo ffurflen ynglŷn â chanllawiau gweinyddiaeth y cyngor. Aethpwyd ati wedyn i'w wahodd i ddarllen ac arwyddo'r ddogfen "Datganiad Derbyn Swydd" a'i ymrwymiad i barchu'r côd ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth aelodau Cyngor Tref Aberteifi. Cyflwynwyd iddo lyfryn "Rheolau Sefydlog Cyngor Tref Aberteifi" a'r llyfryn "Ombwdsmon (Eisiau cwyno am gorff cyhoeddus? – Chi a'r Ombwdsmon". Caiff y ddogfen "Cynllun yr Iaith Gymraeg" a'r ddogfen "Côt Ymddygiad i Aelodau Cyngor Tref Aberteifi" eu hanfon at Mr Morgan drwy e-bost.**

**Gwyntyllodd y clerc gyfrifoldeb y cynghorwyr fel aelodau o Gyngor Tref Aberteifi sydd yn ymddiriedolwr o elusen Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed, a dosbarthwyd i'r aelodau newydd gopi o'r "Scheme" a awdurdodwyd gan y Comisiwn Elusennau ar 20 Mai 1998.**

The clerk extended his welcome to Mr Morgan and presented him with a leaflet outlining council directives regarding the management of proceedings, the "Cardigan Town Council Standing Orders" booklet and the "Ombudsman" booklet ("Want to complain about a public body? – You and the Ombudsman"). The "Welsh Language Scheme" document and "Code of Conduct for Members of Cardigan Town Council" document will be forwarded to Mr Morgan by e-mail. The clerk informed councillors of their responsibility as members of Cardigan Town Council serving as trustee of King George 5<sup>th</sup> Playing Field and distributed all new members with the "Scheme" document authorised by the Charity Commission on 20 May 1998.

#### 4. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.</i>
Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	<i>Gohebiaeth / Correspondence [85]: Small World Theatre</i>

#### 5. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Mehefin**

Confirmation of Minutes of 6 June Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod cofnodion 6 Mehefin yn gywir.**

Cllr Yvonne O'Neill proposed that the 6 June minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

#### 6. **Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tudalen 1252, eitem 14(c) (Murlun Ystafell Radley): Yn dilyn sgysiau gyda Mr Martin Radley a Mrs Beryl Smith, gweddw'r artist, y diweddar Mr Phillip Smith, mae'r clerc yn bles i gyhoeddi bod y ddau yn barod i gyngor y dref cymryd cyfrifoldeb am ofal a lles parhaol y murlun a gomisiynwyd yn y flwyddyn 1969. Mae Mr Glan Morgan, Blaenporth, wedi cytuno ei archwilio a'i adfer, os oes angen.**

**Tudalen 1252, eitem 14(f) (Partneriaeth Canol Dref): Mae cynrychiolydd Cymdeithas Aberteifi Society, Mrs Ann Stokoe, wedi gweithio'n ddyfal ar ochr gyllidol y cynllun.**

Page 1252, item 14(c) (*Ystafell Radley Mural*): Following discussions with Mr Martin Radley and Mrs Beryl Smith, the widow of Mr Phillip Smith, the artist of the mural, the clerk is pleased to report that both parties wish the town council to take responsibility for the care and long-term welfare of the mural which was commissioned in 1969. Mr Glan Morgan, Blaenporth, has agreed to inspect the mural and restore, if necessary.

Page 1252, item 14(f) (*Town Centre Partnership*): The Cymdeithas Aberteifi Society representative, Mrs Ann Stokoe, has worked diligently on the budget of the scheme.

#### 7. **Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

#### 8. **Cynllunio / Planning:**

<i>Rhify Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A170547/8	36 High Street	<i>Newid defnydd y llawr gwaelod o A1 i A2 a newid blaen y siop.</i> Change of use of ground floor from A1 to A2 and a new shop front.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A170528	6 Pontycleifion	<i>Codi estyniad a gwaith cysylltiedig.</i> Erection of extension and associated works.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.
A170552	Osian House, Eben's Lane	<i>Dymchwel adeilad: Mae'r adeilad yn y fath gyflwr fel y bo'n beryglus.</i> Demolition of building: the building is in such a condition as to be dangerous because of significant structural, movement.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.

**9. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/6/17	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor/ Rent of Council Office (Mehefin / June).	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (6 & 20 Mehefin / June)	A9	4419	£50.00 (0.00)
	Band Lydan (Gorffennaf) / Broadband (July)	A20	4419	£20.00 (0.00)
27/6/17	Siemens: Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier	A17	D/D	£150.00 (25.00)
30/6/17	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mehefin / June)	A3	4420	£756.36 (0.00)
26/6/17	Llinos Jones: Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (6/6/17)	A18	4421	£70.80 (0.00)
8/6/17	Zurich Municipal: Yswiriant y cyngor / council insurance: 7/6/2017 – 6/6/2018 (Three year Long Term Agreement)	A11	4422	£2,527.63 (Including £270.82 (Insurance Premium Tax))
31/5/17	CCF: Multi-purpose compost for flower pots	C1	4423	£31.20 (4.99)
19/6/17	BT: Ffôn / Telephone	A20	4424	£85.60 (14.27)
4/7/17	HMRC: PAYE £561.60, Class 1 NIC £107.67 (Ebrill, Mai, Mehefin – April, May, June 2017)	A16	4425	£567.30 (IT) + £109.89 (NIC) = £677.19 (0.00)
10/6/17	David George Trem: Blodau'r Haf / Summer flowers	C1	4426	£332.00 (0.00)
29/6/17	Mr John Morris (Bachan Deche / Handyperson): Blodau a phlanhigion Gerddi Victoria. Flowers and plants for Victoria Gardens (as per quotation dated 21/2/17)	C1	4427	£3,208.80 (534.80)
24/6/17	Caffi Sgwâr Finch Square Café: Stampiau / Stamps	A8	4428	£90.72 (0.00)
30/6/17	Bachan Deche / Handyperson: (Mehefin / June)	A19	4429	£501.60 (83.60)

**Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles.**

Clr Clive Davies proposed that the above bills be paid; this was seconded by Clr Catrin Miles.

**Derbyniadau / Receipts:**

28/4/17	Cyngor Sir Ceredigion County Council ¾ of 2017-18 Precept	£55,996.98
9/5/17	Banc Lloyds Bank (Llog/Interest)	£2.00
6/6/17	Ad-daliad y Dreth Ar Werth / Repayment of VAT, 2016-17	£3,664.77

**(b) Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd Mehefin 2017.**

Financial Report to the end of June 2017.

**Cynigiodd y Cyng. Wyn Jones bod y cyngor yn cymeradwyo'r Adroddiad Ariannol chwarterol; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.**

Clr Wyn Jones proposed that the council approves the quarterly Financial Report; this was seconded by Clr Marilyn Farmer.

**Cadarnhaodd y clerc bod dogfennau perthnasol y flwyddyn ariannol 2016-17 wedi eu hanfon at Grant Thornton, yr archwilydd allanol, ar 12 Mehefin 2017.**

The clerk confirmed that the relevant documents for the financial year 2016-17 have been forwarded to Grant Thornton, the external auditor, on 12 June 2017.

## 10. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

### (a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Cadarnhaodd y Cyng. Miles ei bod yn disgwyl ymateb oddi wrth Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (Llywodraeth Cymru), i drafod y cais am arwyddion arafu ar ffordd A478 Dinbych y Pysgod i mewn i Aberteifi.
- (ii) Mae picnic wedi ei drefnu yn Netpwl yn dilyn cais gan Ms Hannah Wright ar ran mudiad 30degrees i ddathlu manau agored lleol; cynhelir y digwyddiad ddydd Sadwrn, 8 Gorffennaf o 12.00-4.00yp. Mae'r trefnwyr wedi paratoi asesiad risg a threfnu yswiriant.

### (b) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Mae'r Cyng. Evans yn bles bod Theatr Mwldan wedi cytuno dangos y ffilm "Despicable Me 3" yn arbennig i bersonau sy'n dioddef o autism; bydd y sain yn dawelach a bydd hyn yn cytuno gyda'r gwrandawyr sydd tan anfantais.

### (c) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Yn dilyn y drallod ofnadwy yn Nhŵr Grenfell, Llundain, yn ddiweddar, mae gan y Cyng. Adams-Lewis bryderon am yr holl adeiladau yn y sir sydd tan oruchwyliaeth Tai Ceredigion Cyf. Cadarnhawyd bod datganiad i'r wasg gan y cwmni yn dilyn arbofion ar y gorchudd yn sicrhau bod y deunydd ar yr adeiladau sydd tan eu gofal yn ddiogel. Ychwanegodd y Cyng. Marilyn Farmer bod arbrofion tebyg a wnaed ar gyfadeilad Bro Teifi yn cadarnhau hynny.

### (a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles stated that she is expecting a response from Ken Skates, the Welsh Government Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, to discuss measures to lower the speed limit on the Tenby Road section of the A478 into Cardigan.
- (ii) A picnic has been organised to take place at Netpool on Saturday, 8 July from 12.00-4.00pm by Ms Hannah Wright on behalf of 38degrees to celebrate open parks throughout the country. A risk assessment has been carried out and insurance cover arranged.

### (b) Cllr Elaine Evans:

- (i) Cllr Evans was pleased that Theatr Mwldan has agreed to show the film "Despicable Me 3" to autistic people; the reduction in the sound system will be more acceptable to the disabled viewer.

### (c) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Following the horrifying Grenfell Tower tragedy in London recently, Cllr Adams-Lewis has concerns regarding the cladding on buildings throughout the county which are under the management of Tai Ceredigion Cyf. It was confirmed that a press release by the company ensured that the cladding was fire-resistant and safe. Cllr Marilyn Farmer confirmed that tests had been carried out on the Bro Teifi complex with similar results.

## 11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
71	CSC/CCC (Carys James): <i>Wythnos Gofalwyr 2017.</i> Carers Week 2017 – 16/6/17, Feathers Hotel, Aberaeron.	<i>Mae'r posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Posters have been displayed on the notice board.
72	CSC/CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd / Road closure.</i> Carnifal Aberteifi, 5/8/17, 13.30-14.30. Cardigan Carnival.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 29/6/17.
73	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Ffurflenni gwariant ymgeisywr.</i> Candidate returns: All parish and community council elections candidates must submit a spending return and declaration to the Proper Officer within 28 calendar days of the election taking place. This is regardless of whether or not the election was contested.	<i>Os yw ymgeisydd wedi cael ei ethol ond heb gyflwyno ffurflen gwariant neu ddatganiad erbyn y dyddiad cau, maent yn cael eu gwahardd rhag eistedd neu bleidleisio.</i> If a candidate has been elected but has not submitted a spending return or declaration by the deadline they are barred from sitting or voting. <i>Eglurwyd y cyfrifoldeb yma i'r holl gynghorwyr os ymladdwyd yr etholiad ai peidio.</i> This responsibility was explained to all councillors regardless of whether or not the election was contested.

74	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Cau'r ffordd / Road closure. Feidrfair – 11/7/17, 18.00-22.00. Cynnal y briffordd / Highway maintenance.</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
75	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Rhwydwaith Mannau Chwarae / Play Area Network (European funding)</i>	<i>Cytunwyd trafod yr ohebiaeth yn is-bwyllgorau 18 Gorffennaf. It was agreed to discuss the correspondence at the 18 July sub-committees.</i>
76	Heddlu Dyfed-Powys Police: <i>Cais oddi wrth y Prif Arolygydd Stephen Davies i gyfarfod â'r cyngor. Application from the Chief Inspector Stephen Davies to address the council.</i>	<i>Cytunwyd gwahodd y Prif Arolygydd i gyfarfod mis Medi (5ed neu'r 19eg) It was agreed to invite the Chief Inspector to a September meeting (5<sup>th</sup> or 19<sup>th</sup>).</i>
77	Gŵyl Fawr Aberteifi: <i>Gwahoddiad i'r Maer agor gweithgareddau'r Wyl ar 27/6/17 am 7.30yh. Invitation to the Mayor to open the Festival's proceedings.</i>	<i>Mae'r gwahoddiad a'r tocynnau wedi eu trosglwyddo i'r Maer. The invitation and tickets have been forwarded to the Mayor.</i>
78	<i>Gŵyl Afon a Bwyd/River &amp; Food Festival 2017, 12/8/17. Gwahoddiad i'r Maer agor yr Wyl am 11.00yb. Invitation to the Mayor to open proceedings at 11.00am.</i>	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer. The invitation has been forwarded to the Mayor.</i>
79	<i>Sioe Amaethyddol Aberteifi. Cardigan Agricultural Show. Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu cinio canol dydd y Sioe ar y maes, 2/8/17. Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the lunch on the show field at 1.00pm.</i>	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer. The invitation has been forwarded to the Mayor.</i>
80	Zurich Municipal: <i>Dogfenni'r cytundeb yswiriant. Schedule and documents of council insurance, 7/6/17-6/6/18.</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
81	Charity Commission: <i>Adroddiad 2016 anfonwyd 13/6/17 ar ran ymddiriedolwr Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed. Report forwarded on behalf of trustee of King George 5<sup>th</sup> Playing Field (509062) to the Commission on 13/6/17.</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
82	HM Revenue & Customs: <i>Ad-daliad y Dreth ar Werth. Remittance Advice of VAT repayment 2016-17 (£3,664.77)</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
83	<i>Cyngor Cymuned Llandudoch: Trafodwyd yn yr is-bwyllgor (tudalen 1256). St Dogmaels Community Council: "Active Travel" Discussed at the sub-committee (see page 1256). Highway from St dogmaels to Cardigan.</i>	<i>Cytunwyd bod y Cyng. Miles yn cyfuno'r cyfarfodydd gyda Mrs Sue Houghton, clerc Cyngor Cymuned Llandudoch. It was agreed for Cllr Miles to liaise with Mrs Sue Houghton, Clerk of St Dogmaels Community Council, regarding future discussions.</i>
84	Clarke Telecom: <i>Proposed base station installation (Vodafone). Trafodwyd yn yr is-bwyllgor (tudalen 1255). Discussed at the sub-committee (see page 1255).</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
85	<i>Theatr Byd Bychan: Cais am gefnogaeth. Small World Theatre: A request for a supporting letter (new studio space and rig the building for aerial circus training).</i>	<i>Cytunwyd bod y cyngor yn anfon llythyr o gefnogaeth. It was agreed that the council forwards a letter of support. Proposed by Cllr Clive Davies; seconded by Cllr Graham Evans.</i>
86	Prof. Pat Caplan, Brynberian: <i>Pryder am y safle hamdden tu ôl i Gaffi Pendre. Concerns regarding the car parking at the leisure point to the rear of Pendre Café.</i>	<i>Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis hel gwybodaeth am berchenogaeth y darn tir. Cllr Adams-Lewis agreed to seek information regarding the section of land in question.</i>
87	Ms Christine Canon, Bro Teifi: <i>Cais am welliannau i'r anabl ar strydoedd y dref. Application for additional drop-off points for the disabled in the centre of Cardigan.</i>	<i>Awgrymwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod tu allan i'r "Factory Shop" yn fan addas i osod man parcio i'r anabl. Cllr Elaine Evans suggested that the section of road outside the Factory Shop could be utilised as a drop-off point for the disabled. It was agreed to include this in the next Active Travel plan in November.</i>
88	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Mehefin Handyperson: June report</i>	<i>I'w drafod tan eitem 12. To be discussed under item 12.</i>
89	<i>Cadwgan: Cais i'r cyngor sir gan yr ymddiriedolaeth i gymryd cyfrifoldeb am brydles Gardd Brioude. An application to the county council from the trust to take responsibility for the Brioude Garden lease.</i>	<i>Ar yr amod bod yr awgrym yn cael ei dderbyn gan Bwyllgor Gefeillio Brioude/Aberteifi, nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun. If the proposal is acceptable to the Brioude/Cardigan Twinning Committee, the council would have no objection to the scheme.</i>

<b>Bronwen Morgan:</b>	<i>Prif Weithredwr / Chief Executive.</i>
<b>Carys James:</b>	<i>Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Chomisynu / Head of Adult &amp; Commissioned Services</i>
<b>Cathryn Morgan:</b>	<i>Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator</i>
<b>Louise Zerk:</b>	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section</i>
<b>Marianne De Vries:</b>	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section</i>

**12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**  
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.  
**Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 20 Mehefin.**

Confirmation of 20 June Sub-committee Minutes.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod cofnodion 20 Mehefin yn gywir.**

Cllr Graham Evans proposed that the 20 June minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis.

**Materion yn codi    Matters arising**

**Tud. 1255, eitem (a) (Clarke Telecom):** Cytunwyd â'r awgrym nad oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad i leoli gorsaf Vodfone ger Heol y Felin, Aberteifi.

**Tud. 1255, eitem (c) (Cae Chwarae Pentop):** Cytunwyd bod y cyngor yn talu £150 i dorri'r gwair ar Gae Chwarae Pentop; mae'r pris yn cynnwys cludo'r gwair oddi ar y safle.

**Tud. 1256, eitem (f) (Theatr Byd Bychan):** Cytunwyd bod y Cyng. Elaine Evans yn anfon llythyr ar ran y cyngor i gefnogi'r cais am grant i ddarparu gweithgareddau yn ystod yr haf.

**Tud. 1256, eitem (i) (Lisa Helier):** Cytunodd y cyngor â'r awgrym i gyflwyno tarian y dref i Ms Lisa Helier am ei gwaith creadigol dros y blynnyddoedd. Caiff y darian ei chyflwyno yn ystod noson cyflwyno grantiau mis Hydref. Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.

**Cae Chwarae Pentop:** Yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda'r adeiladydd, Mr Mike Phillips, a'r Bachan Deche, awgrymwyd cael pris i dorri'r gwair er mwyn paratoi'r cae ar gyfer gweithgareddau'r haf gan RAY Ceredigion. Bydd yr adeiladydd yn dechrau ar y gwaith i greu mynedfa i'r cae o stad gyfagos Golwg y Castell cyn bo hir. Mae preswylwyr Awel yr Afon yn frwdfrydig ac maent wedi creu tudalen *Facebook*.

**Castell Aberteifi:** Mae gweithgareddau di-ri i'w cynnal yn y Castell yn ystod yr haf gan gynnwys priodasau; mae'n amlwg bod yr atyniad yn denu rhagor o bobl i'r dref. Mae swydd newydd i gyfarwyddwr wedi ei chreu yn ddiweddar.

**Cymdeithas Aberteifi Society:** Mae trefniadau ar y gweill i gyhoeddi map o daith y pererinion o ardal Mwnt i Aberteifi, a hefyd map canoloesol 3D o'r dref.

**Bachan Deche:** Cytunwyd bod y Bachan Deche yn prynu paent sydd yn cyfateb â gofynion iechyd a diogelwch er mwyn paentio cyfarpar Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed. Bydd y Cyng. Clive Davies yn cydlynu gweithwyr i gyflawni'r gwaith.

Page 1255, item (a) (*Clarke Telecom*): The council agreed with the recommendation and has no objection to place a base station installation for Vodafone at the New Mill Road, Cardigan.

Page 1255, item (c) (*Pentop Playing Field*): It was agreed to accept the price of £150 to cut the long grass on the Pentop Playing Field; the price includes the disposal of cuttings.

Page 1256, item (f) (*Small World Theatre*): It was agreed that Cllr Elaine Evans forwards a letter of support to the theatre's application for a grant to host summer activities for families and vulnerable young people during the holidays.

Page 1256, item (i) (*Lisa Helier*): The council agreed with the recommendation to award Ms Lisa Helier with a town shield in recognition of her artistic contribution to the town during recent years. The presentation will take place during the grant presentation evening in October. Proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Graham Evans.

**Pentop Playing Field:** Following a site meeting with the builder, Mr Mike Phillips, and the Handyperson, it was recommended to obtain a quotation for cutting the long grass and preparing the site for summer events to be organised by RAY Ceredigion. The builder will commence the next stage of the work by opening an entrance from the site to the adjacent Golwg y Castell estate. The Awel yr Afon residents are supportive of the venture and have created a Facebook page.

**Cardigan Castle:** Many events have been organised for the season including weddings; it is quite apparent that the Castle attracts many people to the town. A new position of director has recently been created.

*Cymdeithas Aberteifi Society:* Plans are afoot to publish a map of the pilgrims' way from Mwnt to Cardigan. An additional innovation is to create a 3D medieval map of Cardigan.

*Handyperson:* It was agreed that the Handyperson purchases lead-free paint to treat the King George 5<sup>th</sup> Playing Field equipment. Cllr Clive Davies volunteered to organise workers for the task.

**13. Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5<sup>th</sup> Playing Field.**

***Pyst Pêl-droed:*** Dywedodd y Cyng. Graham Evans ei fod yn disgwyl am bris i greu y man a'r lle newydd i osod y pyst ger safle chwarae'r plant.

*Football Goalposts:* Cllr Graham Evans stated that he was still awaiting a quotation for creating the compound to place the goalposts near the children's play area.

**14. Personél / Personnel.**

**15. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei gadwyn.**

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chain of office.

**Sicrhaodd y Maer bod y cadwyni'n ddiogel.**

The Mayor confirmed that the chains were in safe custody.

**16. Unrhyw Fater Arall. Any Other Business.**

(a) **Cais oddi wrth Yr Hoelion Wyth am gyfraniad i osod plâc i anrhydeddu Jonathan Jones, Pencampwr Byd Cychod Cyflym F1 ar bedwar achlysur. Cytunwyd gosod y cais i'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.**

Application for funding from *Yr Hoelion Wyth* to place a plaque to commemorate the achievement of Jonathan Jones, World Powerboat champion on four occasions. It was agreed to discuss the application at the September Grants Sub-committee meeting.

(b) **Dywedodd y Cyng. Siân Maherlein bod y maes parcio gyferbyn i Maes Mwldan yn sefyll heb ei ddefnyddio yn rheolaidd. Awgrymodd bod y maes yn cael ei osod ar gostau rhad i weithwyr y dref er mwyn rhyddhau manau parcio eraill yn Aberteifi. Awgrymwyd codi'r pwynt mewn cyfarfod rheoli meysydd parcio'r cyngor sir.**

Cllr Siân Maehrlein stated that the car park opposite the Maes Mwldan complex is sparsely used by motorists; she suggested that a reduced tariff could be offered to town centre workers in order to free other parking spaces in Cardigan. It was suggested to raise the issue at the next parking personnel meeting of the county council.

(c) **Oherwydd bod nifer y cynghorwyr yn gweithio mewn swyddi llawn amser, gofynnodd y Cyng. Richard Jones i'r cyngor ailystyried amserau cychwyn cyfarfodydd misol y cyngor. Yn dilyn cynnig y Cyng. Elaine Evans ar hyn ac a eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer, cytunwyd dechrau'r cyfarfod misol am 6.00yh (i'r is-bwyllgor cynllunio) a 6.30yh i'r cyfarfod llawn.**

Due to a number of councillors working until 5.00pm and later, Cllr Richard Jones asked the council to reconsider the commencement time of the monthly meetings. Following a proposal by Cllr Elaine Evans and seconded by Cllr Marilyn Farmer, it was agreed to commence the monthly meetings at 6.00pm (for planning matters) and 6.30pm for the full meeting.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.44yh***

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.44pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....